TGAU

3010NA0-1

DYDD IAU, 26 MAI 2022 – PRYNHAWN

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**
**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
   Mae teimlo'n gaeth a theimlo'n rhydd yn gefndir i'r ddwy gerdd.

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a / neu'n WAHANOL.

Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

# GWELD Y GORWEL

Yn rehab y colli nabod – sŵn traed
sy'n troi'r awr ddiddarfod,
sŵn y byw diflasa'n bod.

Yn rehab, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,
bod drwy'r daith hunanol
wna druggie'n dod o'i rigol.

Yn rehab o dan label, – yn nheilchion
ergydion ei gawdel
gwrid ei gariad yw gorwel.

Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,
rhanna ias cyfarfod,
y sŵn byw melysa'n bod.

Aneirin Karadog

(Trowch y dudalen)

# YSTAFELL FEWNOL

Mae gen i ddyfnder
na fydda i'n ei ddangos
i ffrindiau yn aml iawn,
rhyw ddistawrwydd
sydd y tu hwnt i'r *miri
yn ddyfnach
na thrio bod yn ddiddorol.

Mae'n ystafell o ryfeddodau
yn y fi go iawn,
sy'n llawer mwy cyffyrddus
fel hen slipars.
Ond mae'n brifo
gadael pobl i mewn i fanno
rhag ofn iddyn nhw adael y stafell
mewn chwip o dymer
          un dydd.
Gadael llanast a'r drws ar agor i'r oerwynt
sy'n sobri.

(Trowch y dudalen)

Ond mae'r ystafell yno
y tu ôl i'r llygaid,
ac mae'n lle braf
nid fel y tu allan
lle mae'n rhaid bodloni
bod yn galed,
dilyn rôl
fel mae'r mêts yn disgwyl.

Ond ar ddiwedd y dydd
pan does neb o gwmpas,
caf gilio yno'n dawel
ac wynebu neb ond fi fy hun.

Y fi sydd y tu ôl i'r llygaid
y fi rwyt ti
(efallai)
yn gallu'i weld.

Aled Lewis Evans

*miri – hwyl

DIWEDD Y PAPUR